ATODLEN 1

Cynhyrchion a reoleiddir

# RHAN 4

## Jeli

**16.** Cymysgedd o'r canlynol sydd wedi ei gelio'n briodol yw jeli—

(a) siwgr a sudd un neu ragor o fathau o ffrwyth;

(b) siwgr ac echdynnyn dyfrllyd un neu ragor o fathau o ffrwyth; neu

(c) siwgr a sudd ffrwythau un neu ragor o fathau o ffrwyth ac echdynnyn dyfrllyd un neu ragor o fathau o ffrwyth.

**17.** Er gwaethaf is-baragraffau (a), (b) ac (c) o baragraff 16, caniateir i felysydd a ganiateir gael ei ddefnyddio wrth weithgynhyrchu jeli naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn lle siwgr.

**18.** Rhaid i swm y sudd ffrwythau, neu'r echdynnyn dyfrllyd ffrwythau, neu'r ddau, a ddefnyddir i weithgynhyrchu pob 1,000 gram o'r cynnyrch gorffenedig beidio â bod yn llai na'r canlynol—

(a) 250 gram yn achos unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(i) cyrains cochion;

(ii) criafol;

(iii) aeron helyg y môr;

(iv) cyrains duon;

(v) egroes;

(vi) cwins;

(b) 150 gram yn achos sinsir;

(c) 160 gram yn achos afalau cashiw;

(d) 60 gram yn achos ffrwyth y dioddefaint; ac

(e) 350 gram yn achos unrhyw ffrwyth arall.

**19.** Pan ddefnyddir echdynnyn dyfrllyd ffrwythau wrth weithgynhyrchu'r cynnych, rhaid i'r symiau a bennir ym mharagraff 18 gael eu cyfrifo ar ôl tynnu pwysau'r dŵr a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r echdynion dyfrllyd.

**20.** Yn ogystal â'r cynhwysion a grybwyllir ym mharagraffau 16 a 17, caniateir i'r cynnyrch gynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cynhwysyn ychwanegol a awdurdodwyd, sydd, pan geir cyfyngiadau yn Atodlen 2 ynglŷn â'i ddefnyddio, yn cael ei ddefnyddio fel y'i pennir yn Atodlen 2;

(b) sudd ffrwythau sitrws, mewn cynnyrch a geir o fathau eraill o ffrwyth;

(c) sudd betys coch, mewn cynnyrch a weithgynhyrchir o un neu ragor o'r mathau a ganlyn o ffrwyth—

(i) mefus;

(ii) mafon;

(iii) gwsberins;

(iv) cyrains cochion;

(v) eirin;

(d) pilion sitrws;

(e) dail *Pelargonium odoratissimum*, mewn cynnyrch a wneir o gwins.

**21.** Rhaid i unrhyw ddeunyddiau crai a ddefnyddir i weithgynhyrchu'r cynnyrch yn unol â'r Rhan hon ac a grybwyllir yn Atodlen 3 fod heb eu trin ac eithrio drwy ddefnyddio triniaeth a awdurdodwyd.

**22.** Rhaid bod gan y cynnyrch gynnwys deunydd sych toddadwy o 60% neu ragor fel y'i pennir gan reffractomedr ar 20°C ac eithrio—

(a) cynnyrch lle mae siwgr wedi ei ddisodli'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan felysydd a ganiateir; a

(b) cynnyrch y gwneir honiad yn ei gylch ei fod â llai o siwgr yn unol â'r amodau a nodir yn Rheoliad (EC) Rhif 1924/2006.